**CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

COFNODION CYNGOR 1 TACHWEDD 2016

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng B Owen

Cynghorwyr
I C Thomas, W L Davies, W R Owen, W T Owen, H W Roberts, A W Bohana, G Thomas (c), A Hopcyn, E Lovgreen, T Thomas

1. **Ymddiheuriadau**
Cyng M Sarnacki, Cyng C Williams, Cyng K Williams, Cyng M Thomas, Cyng G Thomas (p) , Cyng E Hughes

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Ymweliad Cor Swistr
Lansiad ymgyrch Pabi British Legion ar Y Maes

3. **Datgan Buddiant Personol**

W R Owen – cynllunio
W T Owen – cynllunio
B Owen – cynllunio eitem 4

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Ebost parthed adran fasgwlar Ysbyty Gwynedd

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

***i.*** Cyngor, 18 Hydref 2016
**Penderfynwyd**
Derbyn fel rhai cywir (unfrydol)

## 6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio ( aeth Cyng W R Owen a Cyng W T Owen allan i'r cwbl a Cyng B Owen allan ar gyfer eitem 4)

**Penderfynwyd**

**1.** C16/1082/14/CR **Cytuno**
Addasiadau mewnol
**Eglwys Bresbyteraidd Y Maes Caernarfon**

*****

8. **Cysoni Cyfrifon**

**Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

9. **Unllais Cymru**

i) E-bost am gyflwyniad Mark Drakeford AC
ii) Adroddiad Blynyddol

**Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth ( unfrydol)

10. **E-bost swyddfa Comisiynydd yr Heddlu**

Ymgynghoriad ar flaenoriaethau plismon

**Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth ac annog pawb i gwblhau'r holiadur ( unfrydol)

11. **Gefeillio**

E-bost o ddiolch

**Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth ( unfrydol)

12. **Adroddiad Peiriannwr Sifil ac Adeiladol**

Par: 'Lift shaft'

Eglurodd y clerc bod angen access gwell i'r mecanwaith yn yr ystafell gelf cyn ellith ffitio lifft newydd . Cyng Tudor Owen sydd a cefndir yn y maes adeiladu wedi edrych arno ac yn amcangyfrif costau dim mwy na £3000. Heddiw y lifft wedi cael ei chondemio felly ni fydd lifft tan cawn osod yr un newydd

**Penderfynwyd**

Rhoi hawl i weithredu i'r clerc ( a cael gofyn help Cyng W T Owen os fydd angen ) (unfrydol)

13. **Sgrin Fawr**

Trafodaeth os oedd angen y sgrin eleni a falch nodi bod y prisiau wedi aros ru'n fath

**Penderfynwyd**

Symud ymlaen am y ddau ddiwrnod a nodwyd sef Rhagfyr 16/17 (unfrydol)

14. **E-bost Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru**

Par: Adolygiad Wroleg a Chathetreiddio
**Penderfynwyd**
Derbyn er gwybodaeth ( 9 o blaid , 1 ymatal)

15.**Cwestiynau**

Oes posib anfon nodyn yn dymuno gwellhad buan i'r Cyng E Hughes? Oes

I arbed arian oes modd peidio cael amlenni i raglen y cyngor ? oes

**Cafodd pleidlais i rhoi y rheolau sefydlog i un ochr er mwyn trafod y pwnc**

16. **Ebost Cyng A Hopcyn parthed adran fasgwlar Ysbyty Gwynedd**
Cafwyd trafodaeth am gynnwys y llythyr drafft ac am y pryderon am y sefyllfa a

**Phenderfynwyd**
Ysgrifennu yn cefnogi cynnwys y llythyr drafft
( oedd Cyng A Bohana wedi datgan buddiant ar y pwnc yma ac aeth allan o'r ystafell)

Cafodd y rheolau sefydlog eu adfer

Gorffenodd y cyfarfod am 18.44

Arwyddwyd …….. Dyddiad …….